Taith gerdded hir yn y cloi mawr

Tua diwedd mis Ebrill, gwelodd Becky Evans, Curad AWL Bro Padarn, hysbyseb ar Facebook i godi arian i Gymorth Cristnogol

Sylweddolais na fyddai Wythnos Cymorth Cristnogol yn gallu digwydd fel arfer eleni ac felly byddai'n syniad da i geisio codi eu proffil a chodi arian iddynt. Felly, fe ymunais.

300,000 o gamau ym mis Mai. Dyna oedd y sialens. Iawn, rhywfaint o dan 10,000 o gamau'r dydd – y targed i anelu ato, dim problem…

Yna sylweddolais fy mod wedi ymrwymo i gerdded mwy mewn diwrnod nag y byddwn fel arfer (curad mewn pentref bach, mewn AWL, a fyddai, hyd yn oed pe bawn yn gallu mynd o gwmpas fel arfer, yn golygu neidio i'r car gan amlaf, neu eistedd wrth fy nesg!) Beth ddaeth i'm meddwl…. Ac roedd hyn yn ystod y cloi pan oeddem i fod wneud ond un adeg o ymarfer corff y dydd.

Rhwng ymrwymo ac ail-feddwl, roedd ffrind o'r coleg diwinyddol wedi fy noddi, ac rwyn ddiolchgar oherwydd gallwn fod wedi gwrando ar yr ail feddyliau hynny a thynnu nôl.

Fel mae'n digwydd, wnes i ddim tynnu nôl. Symudwn ymlaen at ddiwedd Mai ac roedd swm fy nghamau am y mis yn 383,581 a'r cyfanswm wedi ei godi i Gymorth Cristnogol , gan gynnwys Rhodd Cymorth yn £916! Roeddwn wedi fy syfrdanu gan mod i wedi gosod fy nharged codi arian yn £50! Symudwn ymlaen at ysgrifennu hwn yng nghanol Gorffennaf ac mae'r swm (yn Cynnwys Rhodd Cymorth) dros £1400!

Diolch o galon i bawb a'm cefnogodd drwy roi i Gymorth Cristnogol neu a'm cefnogodd mewn ffyrdd eraill.